



Archwiliad
Annibynnol o Gyfrifon
Elusennau: Canllaw
Ymddiriedolwyr

Mehfin 2015



Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Ciplwg cyflym ar archwiliad annibynnol	6
3. Beth mae angen i ymddiriedolwyr wybod am archwiliad annibynnol?	7
4. Sut i ddewis eich archwiliwr	11
5. Sut i baratoi ar gyfer archwiliad annibynnol	16
6. Atodiadau	19

1. Cyflwyniad

1.1 Am beth mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn wedi cael ei ysgrifennu i ymddiriedolwyr ac mae'n esbonio'r hyn a olygir wrth archwiliad annibynnol o gyfrifon elusen a phryd y gall elusen ddewis cael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol. Hefyd rhoddir arweiniad ynghylch pwy all ymgymryd ag archwiliad annibynnol a'r materion y mae angen i ymddiriedolwyr eu hystyried wrth ddewis a phenodi archwiliwr annibynnol. Esbonnir cyfrifoldebau ymddiriedolwyr a chyfrifoldebau archwiliwyr hefyd a gwneir rhai argymhellion a all helpu i sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.

Diweddarodd y Comisiwn Elusennau y fersiwn hwn ym Mehefin 2015 yn dilyn Gorchymyn (Cyfrifon ac Archwiliad) 2015 Deddf Elusennau 2011 oedd wedi estyn y cwmpas ar gyfer archwiliad annibynnol a diwygio'r rhestr o archwiliwyr annibynnol sy'n gallu archwilio elusennau gydag incwm o fwy na £250,000. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori yn nes ymlaen yn 2015 ar newidiadau canlyniadol i sail weithdrefnol archwiliad annibynnol.

1.2 'Rhaid' a 'dylai': beth mae'r comisiwn yn ei olygu

Defnyddir y gair 'rhaid' os yw'n ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol y mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag ef.

Defnyddir 'dylai' ar gyfer canllawiau arfer da lleiaf y dylech chi eu dilyn oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

1.3 Cwmpas y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyflwyniad cyffredinol a throsolwg o'r hyn a olygir wrth archwiliad annibynnol a chafodd ei baratoi ar gyfer ymddiriedolwyr pob math o elusennau sy'n gymwys i gael archwiliad annibynnol, boed yn gwmnïau, yn ymddiriedolaethau neu'n gymdeithasau.

Mae wedi'i ysgrifennu'n benodol ar gyfer ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am benderfynu p'un ai i gael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol ac am ddewis a phenodi archwiliwr annibynnol ar gyfer eu helusen.

Mae'r canllaw yn amlinellu'r trothwyon cyfredol ar gyfer archwiliad annibynnol sy'n gymwys ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddu ar neu ar ôl 31 Mawrth 2015. I gael rhagor o wybodaeth am y trothwyon ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu cynharach, cyfeiriwch at [drothwyon adrodd hanesyddol y comisiwn ar gyfer elusennau](#).

1.4 Defnyddio'r canllaw hwn

Er mwyn sicrhau archwiliad annibynnol llwyddiannus rhaid deall beth yw cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a beth yw cyfrifoldebau'r archwiliwr o ran paratoi, craffu a ffeilio cyfrifon. Bydd archwiliad llwyddiannus yn dibynnu ar ddeall beth a olygir wrth archwiliad, pwy all gynnal archwiliad a dewis archwiliwr sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad i ymgymryd ag archwiliad cymwys.

Bydd darllen adran 2 (sy'n rhoi crynodeb 'cyflym') yn rhoi dealltwriaeth gyffredinol i ymddiriedolwyr o ofynion archwiliad annibynnol. Mae adran 3 y canllaw hwn yn esbonio beth y mae angen i ymddiriedolwyr wybod am archwiliad annibynnol ac mae adran 4 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ei ystyried wrth ddewis a phenodi archwiliwr annibynnol. Yn olaf, mae adran 5 y canllaw hwn yn cynnwys rhai argymhellion i helpu i wneud y broses archwilio yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae angen i ymddiriedolwyr, ac yn enwedig y trysorydd mygedol, wybod beth mae archwiliad annibynnol yn ei olygu cyn eu bod yn dewis cael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol. Drwy ddeall yr hyn sydd dan sylw, gall ymddiriedolwyr gael eu cofnodion cyfrifyddu, adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, cyfrifon ac esboniadau yn barod i gynorthwyo'r archwiliwr i gwblhau ei waith mewn pryd.

1.5 Termau a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio trwy'r ddogfen hon, a dylid cymryd bod ganddynt yr ystyrion penodol fel y nodir.

Archwiliad proffesiynol: mae archwiliad ariannol yn cael ei wneud gan unigolyn sy'n gymwys o dan y Ddeddf Elusennau, archwiliwr cofrestredig fel rheol. Mae'n rhaid i'r archwiliwr ariannol fynegi barn broffesiynol ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' a bydd yn cynnal yr archwiliad yn unol â safonau archwilio perthnasol.

Archwiliad statudol: os yw'r term archwiliad statudol yn cael ei ddefnyddio mae'n cyfeirio at y gofyniad yn ôl y gyfraith elusennau i gynnal archwiliad ariannol os yw incwm gros a/neu asedau'r elusen yn fwy na'r trothwy perthnasol gan unigolyn sy'n gymwys i'w benodi fel archwiliwr ariannol cwmni, neu unigolyn a gymeradwywyd gan y comisiwn yn unol â Rheoliadau 2008.

Cronfeydd anghyfyngedig: cronfeydd y gall yr ymddiriedolwyr eu gwario yn ôl eu disgrisiwn ar gyfer unrhyw ddibenion yr elusen. Gall cronfeydd anghyfyngedig hefyd gynnwys rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u clustnodi ar gyfer diben arbennig; mae'r cronfeydd hyn a glustnodwyd yn cael eu galw'n gronfeydd dynodedig. Mae cronfeydd dynodedig o'r fath yn rhan gyfreithiol o'r cronfeydd anghyfyngedig, er gellir eu hadrodd ar wahân yn y fantolen neu'r nodiadau, os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, neu fel rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig, os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau'n cael eu paratoi.

Cronfeydd incwm cyfyngedig: cronfeydd y gall yr ymddiriedolwyr eu gwario ar ddibenion arbennig yr elusen yn unig. Mae cronfeydd incwm cyfyngedig yn ddarostyngedig i ymddiriedolaethau penodol a all gael eu datgan gan y rhoddwr(wyr), neu gyda'i awdurdod (e.e. mewn apêl gyhoeddus), neu gael eu creu trwy broses gyfreithiol, ond sy'n parhau i fod o fewn amcanion ehangach yr elusen.

(Cyfanswm) asedau gros: cyfanswm asedau'r elusen, cyn didynnu rhwymedigaethau, fel ar ddyddiad y fantolen, h.y. ar ddiwedd diwrnod olaf blynyddyn ariannol yr elusen.

Cyfarwyddiadau: mae'r Cyfarwyddiadau i archwiliwyr annibynnol yn cael eu gwneud gan y comisiwn o dan bŵer a roddwyd o dan adran 145(5) o'r Ddeddf Elusennau. Mae'r Cyfarwyddiadau sy'n gymwys i'r archwiliwr annibynnol yn amlinellu pa weithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal archwiliad.

Cyfarwyddwyr: mae cyfarwyddwyr yn un neu ragor o unigolion sy'n hŷn nag 16 oed ac yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am weithrediadau'r cwmni. Mae'r cyfarwyddwyr yn ffurfio bwrdd cyfarwyddwyr sy'n creu'r corff gwneud penderfyniadau ac mae'r bwrdd yn gyfrifol am reoli materion y cwmni. Mae dyletswyddau penodol gan gyfarwyddwyr o dan y gyfraith cwmni ac maent yn atebol yn gyfreithiol am eu gweithrediadau. Mae cyfarwyddwyr yn ymddiriedolwyr cwmni elusennol.

Cyfrifon anstatudol: mae cyfrifon anstatudol yn gyfrifon sydd wedi'u paratoi gan yr ymddiriedolwyr sydd heb eu paratoi o dan neu sydd heb fod yn ofynnol gan Ran 8 o'r Ddeddf Elusennau a'r Rheoliadau 2008 cymwys, neu os yw'r elusen yn gwmni, Rhan 15 o Ddeddf Cwmniâu 2006. Mae cyfrifon o'r fath yn cynnwys cyfrifon rheoli wedi'u paratoi yn ystod y flwyddyn i hysbysu ymddiriedolwyr ynghylch cyllid yr elusen, a chyfrifon grŵp sy'n cael eu paratoi yn wirfoddol.

Cyfrifon grŵp: cyfrifon sy'n cydgrynhai neu'n cyfuno cyfrifon elusen ac unrhyw is-gwmnïau, er enghraifft cwmni masnachu, y mae'n ei reoli. Pwrpas cyfrifon grŵp yw darparu gwybodaeth am y grŵp a'i weithgareddau ariannol yn gyffredinol.

Cyfrifon statudol: cyfrifon statudol yw'r cyfrifon wedi'u paratoi gan yr ymddiriedolwyr sy'n ofynnol ac yn bodloni ffurf a gofynion cynnwys Rhan 8 o'r Ddeddf Elusennau a'r Rheoliadau 2008 cymwys, neu os yw'r elusen yn gwmni, Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006, y mae'r adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr gofynnol wedi'i atodi iddo, ac sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu ddogfen lywodraethol yr elusen, yr adroddiad archwiliad allanol sydd wedi'i baratoi gan yr archwiliwr ariannol neu'r archwiliwr annibynnol.

Dogfen lywodraethol: dogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, memorandwm ac erthyglau cymdeithasu, ewyllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol, cynllun y comisiwn neu ddogfen ffurfiol arall. Ymddiriedolaethau elusen yw'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn nogfen lywodraethol/dogfennau llywodraethol yr elusen.

Ffurf a chynnwys: y gofynion statudol ynghylch datgeliadau, dadansoddi a gwybodaeth y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cyfrifon croniadau.

Gorchymyn 2015: Gorchymyn (Cyfrifon ac Archwiliad) 2015 Deddf Elusennau 2011 (SI 2015 No.321).

Gwaddol: mae cronfeydd gwaddol yn fath o gronfa gyfyngedig lle mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr yn ôl y gyfraith i fuddsoddi neu gadw'r cyfalaf. Gall yr incwm a gynhyrchir o'r cyfalaf gael ei wario. Fel rheol bydd y cronfeydd hyn yn fuddsoddiadau ond gallant hefyd fod yn eiddo a ddelir fel gwaddol at ddefnydd yr elusen. Mae dau fath o waddol. Mae gwaddol parhaol yn gronfa lle nad oes gan yr ymddiriedolwyr y pŵer i wario'r cyfalaf. Gwaddol treuliadwy yw cronfa lle mae dewis gan yr ymddiriedolwyr i wario'r cyfalaf, o dan rai amgylchiadau, yn yr un ffordd â gwario cronfeydd incwm.

Incwm gros: mae adran 353(1) o'r Ddeddf Elusennau yn diffinio incwm gros fel yr incwm gros a gofnodwyd o bob ffynhonnell gan gynnwys ymddiriedolaethau arbennig. Ar gyfer cyfrifon a baratowyd ar ddull derbyniadau a thaliadau, yn syml iawn yr incwm gros yw'r cyfanswm derbyniadau a gofnodwyd yn y datganiad o gyfrifon heblaw gwaddolion, benthyciadau ac elw o werthu buddsoddiadau neu asedau sefydlog. Ar gyfer cyfrifon a baratowyd ar sail croniadau, yr incwm gros yw cyfanswm yr adnoddau a dderbynnir fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (a baratowyd yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (SORP)) ar gyfer pob cronfa, ac eithrio unrhyw waddol a chan gynnwys unrhyw swm a drosglwyddwyd o gronfeydd gwaddol i gronfeydd incwm yn ystod y flwyddyn er mwyn bod ar gael i'w ddefnyddio. Am wybodaeth bellach, cyfeiriwch at y rhestr termau a gwybodaeth ategol ar gyfer ffurflen flynyddol eich elusen.

Llythyr ymrwymiad: llythyr wedi'i gyfeirio at yr ymddiriedolwyr elusen gan yr archwiliwr annibynnol yn rhoi manylion am gyfrifoldebau cyfrifyddu'r ymddiriedolwyr elusen a chyfrifoldebau statudol yr archwiliwr annibynnol. Gall hefyd gynnwys materion megis trefniadau ffioedd, amserlen arfaethedig ar gyfer yr archwiliad a manylion unrhyw waith anstatudol sydd i'w wneud gan yr archwiliwr. Pwrpas y llythyr yw lleihau camddealltwriaeth a dylai cynnwys unrhyw lythyr o'r fath gael ei gytuno yn ysgrifenedig gyda'r ymddiriedolwyr elusen.

Rheoliadau 2008: Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (SI 2008 Rhif 629).

Rheoliadau Grŵp 2015: Rheoliadau 2015 (Cyfrifon Grŵp) Deddf Elusennau 2011

Safonau cyfrifyddu: dylai cyfrifon sy'n bwriadu rhoi darlun gwir a theg (y sail croniadau) gydymffurfio â rhai safonau a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r safonau hyn, y disgwylir i gyfrifwyr proffesiynol fod yn gyfarwydd â nhw, yn cynnwys nifer o Safonau Adrodd Ariannol (FRS) a Datganiadau o Arferion Cymeradwy (SORP).

Sail croniadau: mae'r cysyniad hwn yn gofyn i effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill gael eu hadlewyrchu, cyn belled â phosibl, yn y cyfrifon am y cyfnod pan fyddant yn digwydd, ac nid, er enghraifft, yn y cyfnod pan fydd unrhyw daliad arian parod yn cael ei wneud. Mae'r cysyniad hwn yn ganolog i gydnabod asedau a rhwymedigaethau'r fantolen.

Defnyddiwyd y term hwn i ddisgrifio cyfrifon a baratowyd yn unol â gofynion adran 132(1) o'r Ddeddf Elusennau a Rheoliadau 2008. Mae'n rhaid i gyfrifon Croniadau gael eu paratoi gan yr ymddiriedolwyr i roi darlun 'gwir a theg'. Mae'r cyfrifon yn cynnwys:

- datganiad o weithgareddau ariannol
- mantolen
- nodiadau ar y cyfrifon

Dylai cyfrifon o'r fath gael eu paratoi ar sail polisiau cyfrifyddu sy'n cynnig modd i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg ac sy'n gyson â safonau cyfrifyddu a chysyniadau cyfrifyddu busnes gweithredol a chroniadau.

SORP cymwys yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r SORP i'w ddefnyddio gan yr elusen i baratoi ei chyfrifon ar sail croniadau sy'n weithredol am y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar ei chyfer. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015 mae dewis gan yr ymddiriedolwyr pa SORP i'w ddefnyddio. Mae'r dewis rhwng SORP FRS 102 a SORP FRSSSE. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau cyn 1 Ionawr 2015 dim ond SORP 2005 sy'n gymwys. Nid yw SORP 2005 yn gymwys i'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015. Nid yw argymhellion cyfrifyddu'r SORP yn gymwys i elusennau sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Sail derbyniadau a thaliadau: cyfrifon wedi'u paratoi o dan adran 133 o'r Ddeddf Elusennau. Mae'r cyfrifon yn cynnwys:

- cyfrif derbyniadau a thaliadau
- datganiad o asedau a rhwymedigaethau

Nid yw cyfrifon o'r fath yn honni rhoi 'darlun gwir a theg'; yn lle hynny dylent roi crynodeb ffeithiol o'r arian a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn a datganiad sy'n darparu gwybodaeth ynghylch asedau a rhwymedigaethau'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn.

Sefydliad corfforedig elusennol (SCE): mae SCE yn elusen sydd wedi'i chofrestru fel corff corfforaethol o dan Ran 11 o Ddeddf Elusennau 2011.

SORP 2005: y Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau, wedi'i gyhoeddi ym Mawrth 2005 ac yn amlinellu'r arferion cymeradwy at ddiben paratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a pharatoi cyfrifon ar sail croniadau. Mae argymhellion cyfrifyddu'r SORP yn ategu'r safonau cyfrifyddu. Mae Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddilyn dulliau ac egwyddorion SORP pan fydd cyfrifon yn cael eu paratoi o dan y Ddeddf Elusennau. Fodd bynnag, dylai elusennau lle mae SORP mwy penodol yn gymwys, er enghraifft Cronfeydd Buddsoddi Cyffredin, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, ddilyn y SORP mwy penodol yn lle hynny. Nid yw argymhellion cyfrifyddu'r SORP yn gymwys i elusennau sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

SORP (FRS 102): y Datganiad o Arferion Cymeradwy - Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol 1 Ionawr 2015) a gyhoeddwyd 16 Gorffennaf 2014.

SORP (FRSSSE): y Datganiad o Arferion Cymeradwy - Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai (FRSSSE) (yn weithredol 1 Ionawr 2015) a gyhoeddwyd 16 Gorffennaf 2014.

Tystiolaeth: yr wybodaeth neu'r ffeithiau a gasglwyd gan yr archwiliwr yn ystod yr archwiliad. Mae'r ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael yn cynnwys y cyfrifon, y cofnodion cyfrifyddu, adolygiad dadansoddol yr archwiliwr, yr esboniadau a roddwyd yn yr atebion i'r cwestiynau, materion a sefydlwyd trwy unrhyw weithdrefnau gwirio sy'n angenrheidiol a chofnodion eraill yr elusen, er enghraifft cofnodion cyfarfodydd ymddiriedolwyr.

(Y) Ddeddf Elusennau: Deddf Elusennau 2011.

Y flwyddyn ariannol: y cyfnod y mae'r cyfrifon statudol wedi'u paratoi ar ei gyfer.

Ymddiriedolaethau: dyma'r darpariaethau sydd ar unrhyw adeg arbennig yn rheoleiddio dibenion a gweinyddiaeth yr elusen.

Ymddiriedolwyr (ymddiriedolwyr elusen): diffinnir ymddiriedolwyr elusen gan adran 177 o'r Ddeddf Elusennau a dyma'r bobl sydd, o dan ddogfen lywodraethol elusen, yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallan nhw gael eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau pwyllgor, yn llywodraethwyr neu'n gyfarwyddwyr, neu gall fod enw arall arnynt.

2. Golwg cyflym ar archwiliad annibynnol

Er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd yng ngwaith elusennau, mae'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfrifon y rhan fwyaf o elusennau gael eu harchwilio'n allanol. Ar yr amod nad yw'n ofynnol i elusen, yn ôl y gyfraith neu ei dogfen lywodraethol, gael archwiliad ariannol gall yr ymddiriedolwyr ddewis math symlach a llai costus o archwiliad allanol o'r enw archwiliad annibynnol.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dod i ben ar neu ar ôl 31 Mawrth 2015, gall ymddiriedolwyr ddewis cael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol ar yr amod nad yw incwm gros eu helusen yn fwy na £1m, neu os yw'r incwm gros yn fwy na £250,000 nid yw eu hasedau gros yn fwy na £3.26 miliwn.

Mae archwiliad annibynnol yn fath symlach o archwiliad nag archwiliad ariannol ond er hynny mae'n rhoi sicrwydd i ymddiriedolwyr, noddwyr, buddiolwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd fod cyfrifon yr elusen wedi cael eu hadolygu gan unigolyn annibynnol. Mae'n rhaid i bob elusen gydag incwm o fwy na £25,000 sy'n dewis peidio â chael archwiliad ariannol gael archwiliad annibynnol.

Os yw'n gweithredu fel gwirfoddolwr neu os yw'n cael ei dalu ffi am ei waith, mae rôl yr archwiliwr annibynnol yn bwysig a rhaid iddo ddilyn camau penodol wrth ymgymryd â'r archwiliad a pharatoi adroddiad i'r ymddiriedolwyr sy'n nodi materion arbennig pan fydd wedi gorffen yr archwiliad. Mae proses i'w dilyn ac mae canllaw ar wahân - [Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: canllaw archwiliwr \(CC32\)](#) - ar gael sy'n mynd â'r archwiliwr trwy'r Cyfarwyddiadau sy'n pennu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r archwiliwr eu dilyn, yn esbonio eu dyletswyddau adrodd ac yn rhoi cyngor ymarferol i'r archwiliwr ym mhob cam.

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr archwiliwr yn adolygu cyfrifon derbyniadau a thaliadau ac felly ni fydd angen iddo fod yn gyfrifydd cymwys er mwyn ymgymryd ag archwiliad annibynnol priodol, ond er hynny, bydd rhaid i'r archwiliwr feddu ar lefel arbennig o allu a gwybodaeth er mwyn cynnal archwiliad cymwys a pharatoi ei adroddiad yn y ffordd sy'n ofynnol gan Reoliadau 2008. Os yw incwm gros yn fwy na £250,000 mae'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr fod yn aelod o gorff a restrir yn y Ddeddf Elusennau.

Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi mae'n rhaid i'r archwiliwr gael dealltwriaeth gyfoes o gyfrifon croniadau a bod yn gyfarwydd â'r SoRP cymwys. Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr feddu ar y gallu a'r profiad gofynnol i ymgymryd ag archwiliad cymwys a bydd angen mwy o sgiliau a gwybodaeth gyfrifyddu os yw'r elusen yn paratoi cyfrifon croniadau.

3. Beth mae angen i ymddiriedolwyr wybod am archwiliad annibynnol?

Mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth allweddol y mae angen i ymddiriedolwyr ei gwybod wrth benderfynu p'un ai i ddewis cael archwiliad annibynnol o gyfrifon eu helusen neu beidio.

3.1 Beth yw archwiliad annibynnol?

Yr ateb byr (gofyniad cyfreithiol)

Mae archwiliad annibynnol yn adolygiad allanol o gyfrifon elusen ac mae'n cael ei gynnal gan rywun annibynnol sydd â'r gallu a'r profiad ymarferol gofynnol i gynnal archwiliad cymwys.

Yn fwy manwl

Mae archwiliad annibynnol yn rhoi cyfle i ymddiriedolwyr elusennau llai ddewis ffurf symlach o archwiliad allanol yn lle archwiliad ariannol.

Mae archwiliad annibynnol yn darparu gwiriad allanol o'r cyfrifon a gall unrhyw unigolyn sydd â'r gallu a'r profiad perthnasol ei gyflawni, ac eithrio os yw'r incwm gros yn fwy na £250,000, ac yn yr achos hwn dim ond aelodau un o'r cyrff a restrir yn y Ddeddf Elusennau (gweler adran 4.1) sy'n gallu ymgymryd â'r archwiliad. Mae archwiliad annibynnol yn llai beichus nag archwiliad ariannol ac mae'n darparu llai o sicrwydd o ran dyfnder y gwaith sydd i'w wneud. Mae'r hyn y mae'n rhaid i archwiliwr ei wneud wedi'i bennu yn y Cyfarwyddiadau a wnaed gan y comisiwn (gweler [Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: archwilwyr \(CC32\)](#)) ac mae cynnwys adroddiad yr archwiliwr a amlinellir yn Rheoliadau 2008.

Yn ei adroddiad, mae'n ofynnol i archwiliwr gadarnhau yn unig nad yw unrhyw dystiolaeth wedi dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod rhai pethau heb gael eu gwneud gan yr elusen. Mae'r math hwn o 'sicrwydd negyddol' yn fath mwy cyfyngedig o archwilio. Nid yw'r archwiliwr yn gweithredu fel archwiliwr ariannol ac felly nid yw'n ofynnol iddo gynllunio ei waith, adnabod twyll neu brofi rheolaethau ariannol mewnlol sy'n gweithredu yn yr elusen.

Mae archwiliad yn golygu adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir yn erbyn y cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys adolygu'r cyfrifon ac ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol a ddaeth i'r amlwg. Mae'n bwysig nodi bod gweithdrefnau gwirio a gwarantu, pan fydd eitem yn y cyfrifon yn cael ei gwirio yn erbyn dogfen wreiddiol megis anfoneb neu dderbynneb, dim ond yn ofynnol pan fydd pryderon arwyddocaol yn deillio o waith yr archwiliwr, neu os nad oes modd cael esboniadau boddhaol gan yr ymddiriedolwyr.

Yn adroddiad yr archwiliwr, mae'n ofynnol i'r archwiliwr ddarparu datganiad ar faterion penodol sydd wedi dod at ei sylw o ganlyniad i'r gweithdrefnau archwilio a nodwyd yn y Cyfarwyddiadau a wnaed gan y comisiwn. Mae hwn yn ofyniad symlach nag archwiliad ariannol. Mae'n ofynnol i archwiliwr ariannol adeiladu corff o dystiolaeth i gefnogi datganiad barn cadarnhaol ar y cyfrifon. Yn arbennig, mae'n ofynnol i archwiliwr ariannol ffurfio barn sy'n datgan a yw'r cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg'.

Os oes pryder arwyddocaol sy'n ymwneud â'r cyfrifon y mae'r archwiliwr yn ystyried sy'n bwysig er mwyn deall y cyfrifon ac mae'n parhau heb ei ddatrys, neu os yw materion eraill yn codi y mae'n rhaid eu cynnwys yn adroddiad yr archwiliwr yn dod at sylw'r archwiliwr, bydd angen ystyried sut i adrodd am hyn. Os yw mater yn codi sydd o arwyddocâd perthnasol i'r comisiwn, ac mae'n debygol o ystyried defnyddio ei bwerau ymchwilio, mae'n rhaid i'r archwiliwr baratoi adroddiad ar wahân hefyd ar y mater i'r comisiwn yn ogystal ag adroddiad yr archwiliwr sydd wedi'i atodi i'r cyfrifon.

3.2 Pa elusennau all ddewis cael archwiliad annibynnol?

Yr ateb byr (gofyniad cyfreithiol)

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dod i ben ar neu ar ôl 31 Mawrth 2015, gall elusennau gydag incwm gros o £1m neu lai ddewis cael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol oni bai bod eu hasedau gros yn fwy na £3.26 miliwn ac mae eu hincwm gros yn fwy na £250,000.

Yn gyffredinol nid yw'n ofynnol i elusennau gydag incwm gros o £25,000 neu lai gael unrhyw fath o archwiliad allanol.

Yn fwy manwl

Gall elusennau sy'n is na'r trothwyon archwiliad ariannol ddewis cael archwiliad annibynnol oni bai bod eu dogfen lywodraethol yn mynnu fel arall.

Y trothwyon ar gyfer archwiliad statudol yw:

- incwm gros o fwy na £1m
- asedau gros o fwy na £3.26 miliwn os yw incwm gros yn fwy na £250,000 yn y flwyddyn ariannol

Oni bai bod incwm gros yn fwy na £250,000 nid yw'r trothwy ased gros o £3.26 miliwn yn gymwys.

Dylai incwm gros gael ei gyfrifo yn unol â chanllawiau'r comisiwn, fel y nodwyd yn Atodiad 1. Mae'r siart rediad yn Atodiad 2 yn nodi'r camau ar gyfer penderfynu a yw elusen unigol yn gymwys i gael archwiliad annibynnol neu beidio.

Gall rhai cwmnïau elusennol bach hefyd ddewis cael archwiliad annibynnol o dan y Ddeddf Elusennau ar yr amod nad oes rhaid iddynt neu nid ydynt wedi dewis cael archwiliad ariannol statudol o dan y Ddeddf Cwmnïau. Mae'r ddyletswydd i gynnal cofnodion cyfrifyddu, a ffurf a chynnwys cyfrifon cwmnïau elusennau yn parhau i fod yn amodol ar y gyfraith cwmnïau.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dod i ben ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, fel rheol nid oes unrhyw ofyniad am unrhyw archwiliad annibynnol o gyfrifon os yw'r incwm gros am y flwyddyn ariannol dan sylw yn £25,000 neu lai.

Os yw incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 mewn blwyddyn ariannol ac nid yw'r elusen yn destun archwiliad statudol, mae Deddf Elusennau 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr annibynnol fod yn aelod o gorff rhestredig. Rhestrir y cyrff hyn yn y Ddeddf Elusennau a hefyd yn adran 4.1 y canllaw hwn.

3.3 Beth yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer archwiliad annibynnol?

Yr ateb byr (gofyniad cyfreithiol)

Mae'r gofynion archwilio allanol sy'n gymwys i elusennau wedi'u nodi yn Rhan 8 y Ddeddf Elusennau. Mae'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn adroddiad archwiliwr annibynnol wedi'u nodi yn Rheoliadau 2008.

Yn fwy manwl

Mae'r Ddeddf Elusennau yn gwneud darpariaethau ar gyfer rheoliadau sy'n pennu ffurf a chynnwys cyfrifon elusennau, adroddiadau blynyddol yr ymddiriedolwyr a dyletswyddau archwilwyr ariannol ac archwilwyr annibynnol elusennau. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn Rheoliadau 2008 ac yn gymwys i gyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008. Mae'r Ddeddf Elusennau yn darparu ar gyfer rhyw fath o archwiliad annibynnol ar gyfer cyfrifon pob un ond yr elusennau lleiaf, ond bydd hyn yn llai na'r gofyniad llawn ar gyfer archwiliad ariannol ar gyfer y mwyafrif o elusennau. Mae Rheoliadau 2008 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn adroddiad archwiliwr annibynnol.

Yn arbennig, rhaid i'r archwiliwr ddatgan yn ei adroddiad a yw unrhyw fater wedi dod at ei sylw, mewn perthynas â'r archwiliad, sy'n rhoi achos rhesymol iddo gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- bod cofnodion cyfrifyddu heb gael eu cadw fel sy'n ofynnol gan y gyfraith
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu hynny
- nid yw'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu Rheoliadau 2008 (neu yn achos cwmni elusennol gyda'r gyfraith cwmnïau ac wedi'u paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y SORP)

Hefyd, mae'n rhaid i'r archwiliwr ddarparu datganiad yn ei adroddiad os yw'r materion penodol canlynol wedi dod i'r amlwg yn ystod yr archwiliad:

- unrhyw wariant neu weithredu perthnasol sy'n ymddangos nad yw'n cydymffurfio ag ymddiriedolaethau'r elusen
- unrhyw fethiant i gael yr wybodaeth a'r esboniad gan unrhyw gyn-ymddiriedolwr neu ymddiriedolwr presennol, swyddog neu weithiwr yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol ar gyfer yr archwiliad
- yn achos cyfrifon croniadau unrhyw anghysondeb perthnasol rhwng y cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ac, yn achos cwmni elusennol ag adroddiad y cyfarwyddwyr.

Mae archwilwyr annibynnol o dan ddyletswydd gyfreithiol i lunio adroddiad ysgrifenedig i'r Comisiwn os ydynt, yn ystod eu harchwiliad, yn dod yn ymwybodol o fater sy'n ymwneud â gweithgareddau neu faterion yr elusen, neu unrhyw sefydliad neu gorff cysylltiedig, ac mae achos rhesymol ganddynt dros gredu bod y mater yn debygol o fod yn berthnasol i'r Comisiwn wrth ymarfer ei swyddogaethau ymholi. Mae'r ddyletswydd hon i adrodd materion o bryder arwyddocaol i'r comisiwn yn cael ei hesbonio ymhellach yn y cyhoeddiad [Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: archwilwyr \(CC32\)](#) sydd wedi'i ysgrifennu'n benodol i gynorthwyo archwilwyr yn eu gwaith.

Hefyd mae disgrisiwn gan archwilwyr annibynnol i adrodd os dymunant am unrhyw faterion y credant sy'n 'berthnasol' i ymarfer unrhyw swyddogaethau'r comisiwn.

Mae'r fframwaith cyfreithiol hwn yn gymwys i bob elusen sydd wedi cofrestru gyda'r comisiwn a'r elusennau hynny sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru ar hyn o bryd.

3.4 Ble alla i gael hyd i'r Rheoliadau ?

Yr ateb byr

Er nad yw'n debygol y bydd angen i ymddiriedolwyr gyfeirio at fanylion Rheoliadau 2008 wrth ystyried y dewis o gael archwiliad annibynnol, mae'r Rheoliadau ar gael ar wefan [Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus](#).

Yn fwy manwl

Mae'r Ddeddf Elusennau a Rheoliadau 2008 yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig. Mae copïau o'r Ddeddf Elusennau ar gael o wefan [Legislation.GOV.UK](#).

3.5 Am ba resymau eraill allai fod angen i mi gael archwiliad ariannol?

Yr ateb byr

Ar ôl gwirio a yw incwm gros ac asedau gros yr elusen yn is na throthwy archwiliad ariannol elusennau, mae nifer o bwyntiau ychwanegol i'r ymddiriedolwyr eu hystyried cyn bod yr archwiliwr yn cael ei benodi ac yn dechrau gweithio. Gall fod angen archwiliad ariannol er bod yr elusen yn is na'r throthwy archwiliad ariannol.

Yn fwy manwl

Gall fod angen archwiliad ariannol am resymau eraill gan gynnwys gofyniad:

- o dan ddogfen lywodraethol yr elusen am archwiliad ariannol (er efallai y gall yr ymddiriedolwyr ddiwygio'r ddogfen lywodraethol) - gweler Atodiad 2
- o dan drefn statudol neu reoleiddiol arall, megis y rhai sy'n ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac elusennau'r GIG
- gofyniad a osodwyd ar yr elusen gan noddwr neu fenthyciwr

Hefyd gall ymddiriedolwyr ddewis archwiliad ariannol os yw'n well ganddynt y lefel uwch o sicrwydd y mae'n ei ddarparu. Oherwydd y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig ag archwiliad ariannol a'r datblygiadau mewn Safonau Rhyngwladol ar Archwilio, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol bod archwiliad ariannol yn debygol o fod yn fwy costus o lawer nag archwiliad annibynnol.

Bydd memorandwm ac erthyglau cymdeithasu gan elusennau sydd wedi'u corffori o dan y gyfraith cwmnïau a gall yr erthyglau gynnwys gofyniad am archwiliad ariannol. Os yw'r elusen yn gwmni bydd angen i'r archwiliwr fod yn gyfarwydd â'r gofynion cyfrifyddu ac adrodd ychwanegol sy'n gymwys i gwmnïau bach. Mae ymddiriedolwyr cwmnïau elusennol yn gyfrifol am sicrhau bod cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr, a all gynnwys adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

4. Sut i ddewis eich archwiliwr

Mae'r Ddeddf Elusennau yn caniatáu i'r comisiwn gyhoeddi canllawiau i ymddiriedolwyr elusen ynghylch penodi archwiliwr annibynnol. Dylai ymddiriedolwyr ddarllen yr adran ganlynol er mwyn sicrhau eu bod nhw wedi cymryd yr holl gamau y mae angen iddynt eu cymryd i ddewis a phenodi eu harchwiliwr.

4.1 Pwy all ymgymryd ag archwiliad annibynnol?

Yr ateb byr (gofyniad cyfreithiol)

Dylai'r ymddiriedolwyr elusen gymryd camau i sicrhau bod archwiliad cymwys yn cael ei gynnal ac felly byddant yn ystyried yn ofalus addasrwydd a chymhwyster darpar archwiliwr annibynnol.

Yn fwy manwl

Disgrifir archwiliwr annibynnol yn y Ddeddf Elusennau fel “unigolyn annibynnol y mae sail resymol gan ymddiriedolwyr yr elusen dros gredu fod ganddo'r gallu gofynnol a'r profiad ymarferol i ymgymryd ag archwiliad cymwys o'r cyfrifon”. Pan fydd incwm gros elusen yn fwy na £250,000, ac ar gyfer blynyddoedd ariannol yn dod i ben ar neu ar ôl 31 Mawrth 2015, rhaid i'r archwiliwr fod yn unigolyn sy'n aelod o un o'r cyrff canlynol a restrir yn y Ddeddf Elusennau a dylai gael ei ganiatáu gan reolau'r corff hwnnw i ymgymryd â rôl archwiliwr annibynnol:

- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Cyhoeddus Awdurdodedig
- Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Rhyngwladol
- Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheoli
- Sefydliad Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig
- Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg
- Cymrawd Cymdeithas yr Archwiliwyr Annibynnol Elusennau
- Sefydliad y Cyfrifwyr Ariannol
- Cymdeithas Cyfrifwyr Cyhoeddus Ardystiedig

Mae hawl gan ymddiriedolwyr elusen i roi tâl rhesymol i archwiliwr annibynnol am ei wasanaethau ac os na allant geisio gwasanaethau archwiliwr cymwys yn wirfoddol, dylent fod yn barod i dalu tâl o'r fath a'i ystyried yn gost briodol gweinyddu'r elusen.

4.2 Pwy yw unigolyn annibynnol?

Yr ateb byr

Mae annibyniaeth yn golygu nad yw'r archwiliwr yn cael ei ddylanwadu, neu'n cael ei weld fel ei fod yn cael ei ddylanwadu gan berthnasau personol agos â'r ymddiriedolwyr neu ymwneud â gweinyddu'r elusen o ddydd i ddydd.

Yn fwy manwl

Er mwyn i archwiliwr fod yn annibynnol ni ddylai fod gan yr unigolyn hwnnw unrhyw gysylltiad â'r ymddiriedolwyr elusen a allai amharu ar gynnal yr archwiliad yn ddiduedd. Ni all archwiliwr adolygu'n annibynnol ei waith ei hun ac felly ni all yr unigolyn sy'n cadw llyfrau'r elusen fod yn archwiliwr yr elusen. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all archwiliwr fod yn aelod neu'n gefnogwr yr elusen ac yn aml bydd rhywfaint o gyfraniad yn cynnig brwdfrydedd a chynefindra ychwanegol i rôl yr archwiliwr.

Os yw darpar archwiliwr annibynnol yn aelod o'r elusen, er enghraifft yn aelod o gynulleidfa eglwys, ar yr amod nad yw wedi ymwneud â'r gwaith bob dydd o wneud penderfyniadau neu weinyddu'r elusen, er enghraifft drwy wasanaethu ar bwyllgor neu is-bwyllgor a gynullwyd gan yr elusen, ac nid yw'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwyr elusen, fel rheol gall weithredu fel archwiliwr ar yr amod bod y gallu, y profiad a'r cymhwyster gofynnol ganddo neu ganddi. Hefyd ni fyddai'r hawl i gymryd rhan neu fod yn bresennol fel aelod mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol yn atal yr archwiliwr annibynnol rhag cynnal archwiliad annibynnol er byddai cymryd rhan weithredol yng ngweinyddiad yr elusen, er enghraifft trwy osod cynnig gerbron, yn ei atal rhag gwneud hynny.

Mae penderfynu a yw cysylltiad â'r elusen yn effeithio ar annibyniaeth yn dibynnu ar yr amgylchiadau arbennig ond fel rheol ni fydd yr unigolion canlynol yn cael eu hystyried yn annibynnol:

- (a) ymddiriedolwyr elusen neu unrhyw un arall sydd â chysylltiad agos â gweinyddu'r elusen
- (b) prif roddwr neu brif fuddiolwr yr elusen
- (c) plentyn, rhiant, wŷr neu wyres, nain neu daid, brawd neu chwaer, cymar, partner sifil, partner busnes neu weithiwr cyflogedig unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn is-baragraff (a) neu (b)

4.3 Pa sgiliau sydd eu hangen ar yr archwiliwr annibynnol?

Yr ateb byr (gofyniad cyfreithiol)

Mae'r ymddiriedolwyr yn penodi archwiliwr annibynnol a rhaid iddynt gredu'n rhesymol bod gan y sawl a ddewiswyd y gallu gofynnol a'r profiad ymarferol i gynnal archwiliad cymwys o'r cyfrifon.

Yn fwy manwl

Yn y ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi ar y Mesur Elusennau a arweiniodd at Ddeddf Elusennau 1993 (Deddf Elusennau 2011 bellach), dywedwyd "mae'n amlwg bod rhaid i archwiliwr annibynnol fod yn gymwys i gyflawni'r dasg sydd ganddo i'w wneud a rhaid iddo fod yn gyfarwydd â dulliau cyfrifyddu, ond nid oes rhaid iddo fod yn gyfrifydd gweithredol. Y bobl sydd gennym mewn golwg yw ... pobl fel rheolwyr banc neu reolwyr cymdeithasau adeiladu, trysoryddion awdurdodau lleol neu gyfrifwyr sydd wedi ymddeol. Byddent i gyd yn archwilwyr annibynnol addas".

Bydd ansawdd y dystiolaeth o allu sy'n ofynnol yn dibynnu ar y cyfrifon ac a ydynt wedi'u paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau neu ar sail cronadau, a maint a natur trafodion yr elusen.

Argymhellir y dylai ymddiriedolwyr elusennau sy'n paratoi cyfrifon ar sail croniadau ystyried dewis unigolyn sy'n aelod o un o'r cyrff a restrir yn y Ddeddf Elusennau (gweler adran 4.1), neu unigolyn medrus tebyg, sy'n dangos dealltwriaeth dda o egwyddorion cyfrifyddu, safonau cyfrifyddu a gwybodaeth o'r SORP cymwys.

Mae gan y mwyafrif o elusennau incwm gros sy'n is na'r trothwy ar gyfer paratoi cyfrifon croniadau, ac oni bai eu bod wedi'u cyfansoddi fel cwmni o dan y gyfraith cwmnïau, gallant baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau syml. Mae'r math hwn o gyfrifyddu yn syml iawn ac yn darparu dewis arall syml i gyfrifon croniadau sy'n ateb gofynion cyfreithiol elusennau llai yn llawn. Nid oes angen cael gwybodaeth o safonau cyfrifyddu a'r SORP er mwyn archwilio cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Gall elusennau nad ydynt yn gwmnïau, gan gynnwys Sefydliadau Corfforedig Elusennol, baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau os yw eu hincwm gros yn £250,000 neu lai.

Er y bydd profiad blaenorol yn ddefnyddiol iawn, os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau'n cael eu paratoi, dylai unrhyw un sydd ag ymwybyddiaeth ariannol a sgiliau rhifiadol fod yn gymwys i weithredu fel archwiliwr annibynnol ar yr amod ei fod wedi darllen a deall ein cyhoeddiad [Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: canllaw archwilwyr \(CC32\)](#) a'i ddilyn wrth adolygu set o gyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau neu gyfrifon croniadau'n cael eu paratoi, mae angen i'r archwiliwr fod yn lled gyfarwydd â rhai egwyddorion sylfaenol gan gynnwys y mathau gwahanol o gronfeydd incwm (anghyfyngedig a chyfyngedig) a chronfeydd cyfalaf (gwaddol parhaol a gwaddol treuliadwy), natur yr ymddiriedolaethau, cyfrifoldebau ymddiriedolwyr, a rôl dogfen lywodraethol yr elusen. Am fwy o wybodaeth ynghylch dyletswyddau ymddiriedolwyr cyfeiriwch at gyhoeddiad y comisiwn [Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod \(CC3\)](#).

Hefyd dylai ymddiriedolwyr elusen fodloni eu hunain bod profiad ymarferol gan ddarparu archwilwyr sy'n berthnasol i'r elusen dan sylw a allai gynnwys:

- ymwneud â gweinyddiad ariannol elusen o natur debyg
- weithredu'n llwyddiannus fel archwiliwr annibynnol yn flaenorol ar gyfer elusennau o'r fath
- feddu ar brofiad ymarferol perthnasol ym maes cyfrifeg neu fasnach

4.4 All ein cyfrifon grŵp gael eu harchwilio'n annibynnol?

Yr ateb byr (gofyniad cyfreithiol)

Os yw cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi, sef cydgrynhoi cyfrifon elusen ac unrhyw is-gwmnïau, oherwydd bod hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, yna rhaid cael archwiliad ariannol.

Yn fwy manwl

Mae gan rai elusennau is-gwmni masnachu sydd yn aml wedi'i gofrestru fel cwmni o dan y gyfraith cwmnïau ac mae'n ymgymryd â busnes masnachol er mwyn i unrhyw elw a wneir gael ei roi trwy Gymorth Rhodd i'r elusen. Codwyd y trothwy ar gyfer paratoi cyfrifon grŵp gan Reoliad Grŵp 2015 ar gyfer blynyddoedd ariannol yn dod i ben ar neu ar ôl 31 Mawrth 2015 i £1m. Oni bai bod cyfanswm incwm gros y grŵp, hynny yw incwm gros yr elusen ynghyd ag incwm gros unrhyw is-gwmnïau (ar ôl dileu trafodion o fewn grŵp), yn fwy na'r trothwy statudol o £1m, nid oes unrhyw ofyniad i baratoi cyfrifon grŵp. Os yw cyfanswm yr incwm gros yn fwy na £1m rhaid i'r cyfrifon grŵp gael eu paratoi a rhaid cynnal archwiliad ariannol.

Os yw cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi yn is na'r trothwy hwn, byddent yn gyfrifon gwirfoddol a byddai unrhyw archwiliad o'r cyfrifon hyn yn anstatudol er y gellid cymhwyso'r egwyddorion a nodwyd yn y Cyfarwyddiadau a wnaed gan y comisiwn drwy drefniadau dan gytundeb rhwng yr elusen a'r archwiliwr annibynnol. Os hoffai ymddiriedolwyr gyflwyno cyfrifon grŵp wedi'u paratoi yn wirfoddol fel eu cyfrifon statudol, dylai cyfrifon grŵp gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau 2008 a'r SORP cymwys. Os yw'r rhiant elusen yn gwmni, argymhellir bod cyfrifon grŵp hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith cwmnïau, yn enwedig os bydd cyfrifon yn cael eu defnyddio at ddibenion ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Rhaid i gyfrifon y rhiant elusen ei hun, os ydynt yn fwy na'r trothwy ar gyfer archwiliad annibynnol neu ariannol, gael eu harchwilio'n ariannol neu'n annibynnol yn unol â'r gofynion trothwy pan fyddant wedi'u cynnwys yn y cyfrifon grŵp sydd i'w ffeilio gyda'r comisiwn. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys hyd yn oed os yw'r cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi yn wirfoddol i'w ffeilio gyda'r comisiwn.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifon grŵp ewch i adran berthnasol y SORP cymwys.

4.5 Pa gamau eraill ddylai ymddiriedolwyr elusen eu cymryd wrth ddewis a phenodi archwiliwr annibynnol?

Yr ateb byr (gofyniad cyfreithiol)

I grynhoi, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gymryd camau rhesymol i sicrhau archwiliad cymwys. Mae hyn yn cynnwys ystyried annibyniaeth, galluoedd a phrofiad darpar archwiliwr.

Yn fwy manwl

Cyn penodi archwiliwr, mae'r comisiwn yn argymhell y dylai ymddiriedolwyr ofyn i'r darpar archwiliwr gadarnhau:

- ei fod yn fodlon ei fod yn annibynnol ar yr elusen a'i ymddiriedolwyr
- os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi ei fod yn credu bod y gallu a'r profiad angenrheidiol ganddo i ymgymryd â'i waith gan gynnwys gwybodaeth o'r SORP cymwys
- ei fod wedi bodloni unrhyw ofynion (er enghraifft, tystysgrif weithredol) ei gorff proffesiynol ei hun i weithredu fel archwiliwr
- os yw'n briodol, ei fod yn meddu ar yswiriant indemniad proffesiynol

Os yw'n briodol, gall yr ymddiriedolwyr ofyn i archwiliwr roi manylion am ei brofiad, achrediad neu gymwysterau ac mae hyn yn arbennig o berthnasol os oes rhaid i'r archwiliwr fod yn aelod o gorff a restrir yn y Ddeddf Elusennau (gweler adran 4.1) neu os yw cyfrifon a baratowyd ar sail croniadau yn cael eu harchwilio.

Drwy geisio'r sicrwydd hwn, boed drwy e-bost, llythyr neu os yw ffi yn cael ei chodi yn y llythyr ymrwymiad, gall yr ymddiriedolwyr ddangos eu bod wedi rhoi sylw priodol i'r gofyniad i ddewis archwiliwr sydd â'r 'gallu gofynnol a'r profiad ymarferol'. Os yw'r archwiliwr yn codi ffi dylai'r ymddiriedolwyr gael gwybod trwy lythyr ymrwymiad ar ba sail y mae'r archwiliwr wedi cytuno i weithredu. Dylai telerau'r ymrwymiad gydnabod, ac nid cyfyngu ar ddyletswyddau statudol yr archwiliwr.

Er nad oes rhaid i bob archwiliwr feddu ar gymhwyster cyfrifyddu proffesiynol, rhaid i'r ymddiriedolwyr bob amser benodi unigolyn sy'n addas i amgylchiadau'r elusen a dylai'r ymddiriedolwyr sicrhau bod canllawiau'r comisiwn ynghylch sgiliau gofynnol (gweler adran 4.3) yr archwiliwr ar gyfer cyfrifon croniadau wedi cael eu dilyn.

Dylai ymddiriedolwyr elusen drafod yn llawn gyda'r darpar archwiliwr waith yr elusen a'u disgwyliadau. Dylent sicrhau bod gan y darpar archwiliwr annibynnol gopi o [Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: canllaw archwilwyr \(CC32\)](#) a'i fod yn gyfarwydd â Chyfarwyddiadau'r comisiwn i archwilwyr annibynnol ac yn deall y ddyletswydd i ddarparu adroddiad archwiliwr annibynnol. Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, dylai'r archwiliwr hefyd fod yn gyfarwydd â Rheoliadau 2008 o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon hynny a'r SORP cymwys.

Os yw'r elusen yn gwmni bach, dylai'r archwiliwr hefyd fod yn ymwybodol o ofyniad cyfrifyddu Deddf Cwmnïau 2006 o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon hynny yn ogystal â bod yn gyfarwydd â'r SORP cymwys.

Gall ymddiriedolwyr elusen sy'n dilyn y canllawiau hyn ac sy'n cael sicrwydd addas gan ddarpar archwilwyr, a thrwy unrhyw eirdaon, fod yn hapus eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i benodi archwiliwr sydd â'r gallu a'r profiad i ymgymryd ag archwiliad annibynnol cymwys o'u cyfrifon.

'Archwiliad cymwys' yw un sy'n cael ei wneud gyda medr a gofal rhesymol yn unol â'r Cyfarwyddiadau ar gyfer archwiliad annibynnol.

5. Sut i baratoi ar gyfer archwiliad annibynnol

Er mwyn sicrhau archwiliad effeithlon ac effeithiol mae angen gwneud ychydig o waith paratoi. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen ddeall eu dyletswyddau o ran cadw cofnodion cyfrifyddu, paratoi cyfrifon a'u ffeilio. Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod yr holl gofnodion cyfrifyddu yn gyfoes ac ar gael yn hawdd a sicrhau bod cyfrifon drafft a'r adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr wedi cael eu paratoi (oni bai y cytunwyd y bydd yr archwiliwr yn drafftio'r cyfrifon o'r cofnodion cyfrifyddu) mewn pryd ar gyfer yr archwiliad fel cam cyntaf hollbwysig.

5.1 Pa gofnodion cyfrifyddu ddylai fod ar gael i'r archwiliwr?

Yr ateb byr (gofyniad cyfreithiol)

Rhaid i bob elusen gadw cofnodion cyfrifyddu a rhaid iddynt gael eu diweddarau a bod ar gael i'r archwiliwr annibynnol.

Yn fwy manwl

Rhaid i bob elusen gadw cofnodion cyfrifyddu. Rhaid cadw'r cofnodion hyn (e.e. llyfrau arian, anfonebau, derbyniadau, cofnodion Cymorth Rhodd ac ati) am o leiaf 6 blynedd (neu o leiaf 3 blynedd yn achos cwmnïau elusennol). Os yw taliadau Cymorth Rhodd yn cael eu derbyn bydd angen cadw cofnodion am 6 mlynedd gyda manylion unrhyw roddwyr sylweddol yn cael eu cadw yn unol â chanllawiau HMRC.

Rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu fod yn ddigonol i ganiatáu i'r cyfrifon gael eu paratoi, gan adnabod trafodion gan gynnwys eu swm a'u dyddiad, ac adnabod symiau a natur asedau a rhwymedigaethau'r elusen. Rhaid i gwmnïau elusennol sicrhau bod eu cofnodion cyfrifyddu yn bodloni gofynion y gyfraith cwmnïau.

5.2 Pa wybodaeth sy'n rhaid i ymddiriedolwyr ei darparu?

Yr ateb byr (gofynion cyfreithiol)

Mae hawl gan yr archwiliwr ofyn am unrhyw wybodaeth ac esboniadau gan gyn-ymddiriedolwyr elusen neu ymddiriedolwyr elusen presennol, swyddogion neu weithwyr yr elusen y teimlai'r archwiliwr sydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad.

Yn fwy manwl

Mae gan yr archwiliwr hawl i gael at unrhyw lyfrau, dogfennau a chofnodion eraill (sut bynnag y cânt eu cadw) sy'n ymwneud â'r elusen ac mae'r archwiliwr yn teimlo y mae angen eu harchwilio at ddibenion yr archwiliad.

Yn ystod archwiliad mae'n debygol iawn y bydd angen i'r archwiliwr ofyn rhai cwestiynau neu geisio eglurhad ar gyfer y materion sy'n codi ac mae'n ofynnol i gyn ymddiriedolwyr elusen neu ymddiriedolwyr elusen presennol, swyddogion neu weithwyr yr elusen gynorthwyo yn ôl y gyfraith. Mae hawl gan yr archwiliwr i geisio gwybodaeth ac esboniadau ar unrhyw fater y mae'r archwiliwr yn ystyried sydd eu hangen at ddibenion cynnal yr archwiliad.

5.3 Beth i'w baratoi? Y gofyniad i baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a chyfrifon

Yr ateb byr (gofynion cyfreithiol)

Mae'n rhaid i bob elusen gofrestredig baratoi cyfrifon blynyddol ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr. Ac eithrio SCEau, dim ond elusennau sydd ag incwm gros o fwy na £25,000 sy'n rhaid ffeilio eu cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr gyda'r comisiwn. Mae'n rhaid i SCEau ffeilio eu cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr gyda'r comisiwn waeth beth fo'u lefel incwm. Cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr yw paratoi a ffeilio'r datganiadau hyn er y gall archwiliwr annibynnol helpu elusen i'w paratoi.

Yn fwy manwl

Elusennau bach (gan gynnwys SCEau), heb fod yn gwmnïau elusennol sydd wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, baratoi naill ai cyfrifon croniadau neu gyfrifon derbyniadau a thaliadau ar yr amod nad yw eu hincwm gros yn fwy na'r trothwy incwm gros perthnasol ar gyfer eu paratoi. Mae cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cynnig dewis arall syml a hyblyg ar gyfer cyfrifon croniadau mwy cymhleth. Yn syml mae cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn gofnod wedi'i ddadansoddi o'r arian parod a dderbyniwyd ac a wariwyd yn y flwyddyn ariannol gan gysoni gweddillion arian parod a gweddillion banc a gedwir ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd ag atodlen o unrhyw asedau neu rwymedigaethau eraill ar ddiwedd y flwyddyn a elwir y 'datganiad o asedau a rhwymedigaethau'. Mae cyhoeddiad y comisiwn [Pecyn cyfrifon derbyniadau a thaliadau \(CC16\)](#) yn darparu cynllun pro forma ar gyfer adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, cyfrifon derbyniadau a thaliadau, datganiad o asedau a rhwymedigaethau ac adroddiad yr archwiliwr annibynnol. Mae [enghreifftiau parod](#) hefyd ar ddefnyddio'r pecyn cyfrifon. Mae cyfrifon derbyniadau a thaliadau ar gyfer SCEau ychydig yn wahanol.

Mae'n rhaid i bob cwmni elusennol baratoi cyfrifon croniadau. Mae'n rhaid i elusennau nad ydynt yn gwmnïau baratoi cyfrifon croniadau os yw eu hincwm gros yn fwy na £250,000. Yn gyffredinol rhaid i elusennau sy'n paratoi cyfrifon croniadau wneud hynny drwy ddilyn y SORP cymwys. Fodd bynnag, mae gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau addysg bellach ac uwch eu SORP eu hunain a dylent ddefnyddio hwn yn lle hynny, ond mae maint y sefydliadau hyn yn golygu fel arfer nad ydynt yn debygol o fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol.

Mae cyfrifon croniadau yn fwy na dim ond math syml o gyfrifon arian parod gyda dyledwyr (arian sy'n ddyledus i'r elusen ond sydd heb ei dalu erbyn diwedd y flwyddyn) a chredydwyr (arian sy'n daladwy gan yr elusen ond heb ei dalu erbyn diwedd y flwyddyn) oherwydd rhaid iddynt gynnwys cost neu brisiad asedau, dibrisiant asedau sefydlog, darpariaethau, prisiad y farchnad buddsoddiadau, amhariad asedau swyddogaethol ac addasiadau a datgeliadau cyfrifyddu eraill, er enghraifft, cyfrifyddu ar gyfer trefniadau pensiwn. Mae cyfrifon croniadau yn ffurf llawer mwy cymhleth o gyfrifyddu na derbyniadau a thaliadau ac mae'n dilyn y rheolau cyfrifyddu a bennwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg mewn safonau cyfrifyddu ac a ddehonglwyd gan y SORP cymwys ar gyfer y sector elusennol. Rhaid i gwmnïau elusennol gydymffurfio hefyd â gofynion cyfrifyddu Deddf Cwmnïau 2006.

Ar gyfer elusennau nad oes angen archwiliad statudol arnynt, mae'r SORP cymwys yn cynnig nifer o gonsesiynau ac i gynorthwyo elusennau llai nad ydynt yn gwmnïau mae cyhoeddiad y comisiwn [Pecyn cyfrifon croniadau \(CC17 a CC39\)](#) yn darparu cynllun pro forma ar gyfer y cyfrifon, adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ac adroddiad yr archwiliwr a phan fydd wedi'i gwblhau mae'n bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Ar gyfer elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau, mae nifer o enghreifftiau parod o [gyfrifon croniadau](#) i'w gweld ar GOV.UK.

5.4 Pwy ddylai ffeilio adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a chyfrifon a phryd?

Yr ateb byr (gofynion cyfreithiol)

Yr ymddiriedolwyr elusen sy'n gyfrifol am ffeilio cyfrifon eu helusen gyda'r comisiwn cyn pen 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn fwy manwl

Ac eithrio SCEau, dim ond elusennau sydd ag incwm gros o fwy na £25,000 sy'n rhaid ffeilio eu hadroddiad a'u cyfrifon gyda'r comisiwn. Mae'n rhaid i bob SCE, waeth beth fo'i incwm, anfon copi o'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon atom ac, os yw'n gymwys, adroddiad yr archwiliwr ariannol neu'r archwiliwr annibynnol ac adroddiad blynyddol. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon, ynghyd ag adroddiad yr archwiliwr annibynnol yn cael eu hanfon i'r comisiwn o fewn 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dylai ymddiriedolwyr cwmnïau elusennol nodi bod ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau yn ofynnol o fewn 9 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol a gall fod yn gyfleus iddynt ffeilio gyda'r comisiwn yr un pryd.

Dylai'r ymddiriedolwyr gytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau'r archwiliad gyda'r archwiliwr. Dylai adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, cyfrifon a chofnodion a gwybodaeth ategol gael eu darparu i'r archwiliwr yn ddigon cynnar i ganiatáu i'r archwiliad gael ei gwblhau ac i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr cyn y dyddiad cau ar gyfer ffeilio.

Os yw'r ymddiriedolwyr yn awyddus i'r archwiliwr ddelio â'r ffeilio dylai hyn gael ei gytuno yn ysgrifenedig â'r archwiliwr fel rhan o'r ymrwymiad. Os yw'r ffeilio yn debygol o fod yn hwyr dylai'r ymddiriedolwyr roi gwybod i'r comisiwn cyn y dyddiad cau ar gyfer ffeilio gan esbonio'r amgylchiadau, y camau y mae'r ymddiriedolwyr yn eu cymryd a'r dyddiad tebygol pan fyddant yn ffeilio.

5.5 Beth arall all yr ymddiriedolwyr ei wneud i sicrhau archwiliad effeithlon ac effeithiol?

Yr ateb byr

Bydd dilyn y canllawiau hyn yn helpu. Hefyd mae dilyn y gofynion cyfreithiol, cynllunio a pharatoi hefyd yn bwysig.

Yn fwy manwl

Mae paratoi ar gyfer yr archwiliad yn bwysig. Mae cynllunio gofalus yn allweddol i archwiliad llwyddiannus. Mae nifer o'r camau y mae angen eu cymryd eisoes wedi cael eu hesbonio yn y canllaw hwn - mae'r pwyntiau allweddol i'w cofio yn cynnwys:

- sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu wedi'u diweddarau ac ar gael
- adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr wedi cael ei baratoi
- gosod amserlen ar gyfer paratoi'r cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr
- cytuno ar gyfrifoldebau gyda'r archwiliwr, er enghraifft, pwy fydd yn paratoi'r cyfrifon ac yn eu ffeilio gyda'r comisiwn
- cytuno ar amserlen ar gyfer yr archwiliad gyda'r archwiliwr
- sicrhau bod ymddiriedolwyr a staff allweddol ar gael i ateb cwestiynau a all godi

6. Atodiadau

Atodiad 1

Cyfrifo incwm gros

Mae'r Ddeddf Elusennau yn datgan bod cyfeiriad at incwm gros yr elusen: "yn golygu ei hincwm gros a gofnodwyd o bob ffynhonnell gan gynnwys ymddiriedolaethau arbennig". Mae'r diffiniad bras hwn yn cael ei ddehongli at ddibenion gweinyddol gan y comisiwn wrth bennu gofynion y ffurflen flynyddol a pharatoi rheoliadau'r ffurflen flynyddol. Mae'r diffiniad gweinyddol hwn o incwm gros yn cael ei adolygu'n flynyddol wrth baratoi ar gyfer y broses ffurflen flynyddol.

Y diffiniad o incwm gros (canllaw i'r ffurflen flynyddol)

'Ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau' - yr incwm gros yw'r cyfanswm derbyniadau a gofnodwyd yn y datganiad o gyfrifon heblaw gwaddolion, benthyciadau ac elw o werthu buddsoddiadau neu asedau sefydlog.

'Ar gyfer cyfrifon croniadau' - incwm gros yw cyfanswm yr adnoddau a dderbynnir fel y dangosir yn y datganiad o weithgareddau ariannol (SoFA) wedi'i baratoi yn unol â'r SORP ar gyfer yr holl gronfeydd, ond:

- heb gynnwys unrhyw waddol
- gan gynnwys unrhyw swm a drosglwyddwyd o gronfeydd gwaddol i gronfeydd incwm yn ystod y flwyddyn er mwyn bod ar gael i'w ddefnyddio

Sylwer: nid yw SORP 2015 a'n diffiniad o incwm yn cynnwys yn y cyfanswm adnoddau a dderbynnir unrhyw enillion wrth ailbriso asedau sefydlog neu enillion ar fuddsoddiadau. Nid yw enillion o'r fath yn ffurfio rhan o 'incwm gros' at y dibenion trothwy hyn.

Atodiad 2

Siart llif: Gofynion cymhwyster ar gyfer archwiliad annibynnol

